# Hysbysiad Preifatrwydd AGIC

| | |
|---|---|
| Math | Hysbysiad Preifatrwydd AGIC |
| Fersiwn | 3.0 |
| Awdur | Tîm Gwasanaethau Corfforaethol AGIC |
| Dyddiad | Gorffennaf 2022 |
| Dyddiad adolygu | Gorffennaf 2023 |

# Cynnwys

PWY YDYN NI....3
YR HYN RYDYM YN EI WNEUD....3
Arolygu gofal iechyd....3
Ymchwilio....3
Cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau cofrestredig yn barhaus....3
Gwasanaeth adolygu ar gyfer iechyd meddwl....3
Y Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig....3
PAM RYDYM YN CASGLU AC YN PROSESU EICH DATA PERSONOL....4
Cwynion am AGIC....4
Ymgynghori ac arolygon ar-lein....4
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun....4
Arolygu gwasanaethau....5
Ymchwilio i bryderon a materion diogelu....6
Cylchlythyrau....7
Cofnod sefydliadol pob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth GIG a darparwr annibynnol....7
Digwyddiadau wedi'u trefnu, cyfarfodydd, lansiadau ac ymgynghoriadau....7
Adolygiadau ac ymchwiliadau, gan gynnwys adolygiadau lladdiad....8
Cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau cofrestredig yn barhaus....9
Ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau cyffredinol....10
Gwasanaeth adolygu ar gyfer iechyd meddwl....10
Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig....11
Y cyfryngau cymdeithasol....11
Cymryd camau gorfodi....13
Â PHWY Y BYDDWN YN RHANNU EICH GWYBODAETH....14
EICH HAWLIAU DAN REOLIAD CYFFREDINOL Y DU AR DDIOGELU DATA (GDPR)....14
CYSYLLTIADAU....14

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC)

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), rydym wedi datblygu Hysbysiad Preifatrwydd sy'n esbonio pam rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth.

## PWY YDYN NI

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rhan o Lywodraeth Cymru. Ein rôl yw rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau ac amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

## YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

**Arolygu gofal iechyd** – Rydym yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal da.

**Ymchwilio** - Rydym yn cynnal adolygiadau o sefydliadau a gwasanaethau gofal iechyd mewn ymateb i bryderon sy'n codi o ddigwyddiad neu ddigwyddiadau penodol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a/neu amlder y digwyddiadau.

**Cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau cofrestredig yn barhaus** – Rydym yn cofrestru ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

**Gwasanaeth adolygu ar gyfer iechyd meddwl** - Rydym yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ac yn diogelu buddiannau pobl y mae eu hawliau wedi'u cyfyngu o dan y Ddeddf honno.

**Y Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig** – Rydym yn gweinyddu'r Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig, sy'n diogelu hawliau cleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl sydd naill ai'n gwrthod y driniaeth a ragnodwyd gan y clinigydd cymeradwy neu y bernir nad oes ganddynt y gallu i gydsynio.

# PAM RYDYM YN CASGLU AC YN PROSESU EICH DATA PERSONOL

Er mwyn cyflawni ein gwaith yn effeithiol, ac yn unol â gofynion statudol,[1] mae'n rhaid i ni gasglu, dal a defnyddio rhai mathau o wybodaeth am unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr y GIG, darparwyr gofal iechyd annibynnol, cleifion a chynrychiolwyr cleifion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth lle gellir adnabod unigolion a gwybodaeth sensitif am yr unigolion. Mae'r wybodaeth y mae AGIC yn ei chasglu, yn ei defnyddio ac yn ei phrosesu yn angenrheidiol i'n galluogi ni i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac wrth arfer ein hawdurdod swyddogol. Nodir diben casglu data a'r mathau o wybodaeth bersonol sydd gennym isod:

## Cwynion am AGIC

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi wneud cwyn i ni. Ymdrinnir â'r rhain fel rhan o brosesau corfforaethol Llywodraeth Cymru. Edrychwch ar Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru i weld sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei thrin.

## Ymgynghori ac arolygon ar-lein

Rydym yn casglu gwybodaeth a gynigir gan aelodau o'r cyhoedd gan ddefnyddio offeryn arolwg ar-lein a gynhelir gan Smart Survey, sy'n gweithredu fel prosesydd data ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac sydd ond yn prosesu gwybodaeth bersonol yn unol â'n cyfarwyddiadau. Mae Smart Survey yn gweithredu o'r Unol Daleithiau, ond mae wedi rhoi sicrwydd ei fod yn bodloni safonau GDPR, sydd i'w gweld yn ei Bolisi Preifatrwydd.

## Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun

Pe byddech chi yn gwneud cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gais am fynediad at ddata gan y testun, ymdrinnir â'r rhain fel rhan o brosesau corfforaethol Llywodraeth Cymru. Edrychwch ar Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru i weld sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei thrin.

## Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I gofrestru fel rheolwr cofrestredig neu unigolyn cyfrifol i ddarparu gofal iechyd annibynnol, mae'n ofynnol i ni gynnal gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er

---

[1] Rydym yn casglu ac yn cadw gwybodaeth am unigolion yn unol â'r ddeddfwriaeth a rheoliadau cysylltiedig a ganlyn: Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rydym yn prosesu'r wybodaeth honno yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018.

mwyn cwblhau'r gwiriad hwn, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol ar ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

- enw
- dyddiad geni
- rhywedd
- man geni
- rhif cyfeirnod tystysgrif geni a dyddiad cyhoeddi
- rhif cyfeirnod tystysgrif mabwysiadu a dyddiad cyhoeddi
- rhif cyfeirnod trwydded breswylio fiometrig a dyddiad cyhoeddi
- rhif tystysgrif priodas / partneriaeth sifil a dyddiad cyhoeddi
- rhif cyfeirnod cerdyn adnabod Lluoedd EM a dyddiad cyhoeddi
- rhif cyfeirnod trwydded drylliau a dyddiad cyhoeddi
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn
- rhif yswiriant gwladol
- rhif trwydded yrru a dyddiad cyhoeddi
- rhif pasbort, gan gynnwys cenedligrwydd a gwlad cyhoeddi
- rhif fetio a gwahardd yr Alban
- cyfeiriad presennol (hefyd cyfeiriadau blaenorol ar gyfer y pum mlynedd diwethaf)
- dogfennau hanes ariannol a chymdeithasol, e.e. cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu, cyfriflen cerdyn credyd, trwydded waith neu fisa ac ati

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig fel:

- euogfarnau

Ar ôl cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, byddwn yn dinistrio'r holl wybodaeth bersonol, ac eithrio enw'r unigolyn, rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y dyddiad cyhoeddi ac unrhyw euogfarnau, ar ôl saith mlynedd.

## Arolygu gwasanaethau

Er mwyn cynnal arolygiadau o wasanaethau gofal iechyd, efallai y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- rhif adnabod y claf
- comisiynydd y GIG ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir
- enwau staff
- rolau staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnodion goruchwylio staff
- gwiriadau o'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- ffotograffau staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff, geirdaon
- cymwysterau / cofrestriad corff proffesiynol a hanes cyflogaeth

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, risg, math fforensig, math o driniaeth, a meddyginiaeth
- manylion cadw os yn berthnasol
- ethnigrwydd, gan gynnwys anghenion crefyddol/diwylliannol

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am gleifion er mwyn:

- olrhain effeithiolrwydd y gofal y mae claf wedi'i gael dros gyfnod o amser
- cyfeirio at unrhyw faterion yn ymwneud â gofal aneffeithiol neu anniogel wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am staff er mwyn:

- sicrhau bod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi'u cynnal
- gwerthuso p'un a yw staff wedi derbyn hyfforddiant a/neu ddatblygiad perthnasol
- cyfeirio at staff, os oes angen, wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd

Byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol â chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fo risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, y cleifion neu'r staff.

## Ymchwilio i bryderon a materion diogelu

Er mwyn ymchwilio i bryder neu fater diogelu, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau amddiffyn a cham-drin

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n fewnol ac ond yn cael ei throsglwyddo i swyddogion o fewn yr adrannau perthnasol y mae angen iddynt roi mewnbwn i'r modd yr ymdrinnir â'ch cwyn. Mae'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â chwynion yn cael ei gweinyddu a'i chadw ar systemau rheoli cofnodion diogel. Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Cylchlythyrau

Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti, GovDelivery, i ddosbarthu ein cylchlythyrau electronig misol. Rydym yn casglu ystadegau ynghylch agor e-byst a chliciau gan ddefnyddio technolegau safonol y diwydiant, gan gynnwys GIFs clir, i'n cynorthwyo i fonitro a gwella ein cylchlythyr electronig. Am fwy o wybodaeth, gweler polisi GDPR GovDelivery. Gellir gweld polisi preifatrwydd cyffredinol y cwmni hefyd yma.

## Cofnod sefydliadol pob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth GIG a darparwr annibynnol

Er mwyn cyflawni ein nod o annog gwelliant mewn gofal iechyd trwy wneud y gwaith cywir ar yr amser cywir yn y lle cywir, rydym yn penderfynu ble i ganolbwyntio ein gweithgareddau ar sail risg a gwybodaeth. Rydym yn cadw'r data personol canlynol fel rhan o'n cofnodion sefydliadol ar gyfer sefydliadau'r GIG:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau amddiffyn a cham-drin

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Digwyddiadau wedi'u trefnu, cyfarfodydd, lansiadau ac ymgynghoriadau

Er mwyn gwahodd unigolion i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ac i gymryd rhan mewn lansiadau ac ymgynghoriadau, mae'n bosibl y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad e-bost
- cyfeiriad cartref/gwaith
- rhif ffôn
- gofynion deietegol
- gofynion hygyrchedd a gofynion arbennig
- dewisiadau iaith a chyfathrebu

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth a byddwn yn ei chadw am gyfnod y lansiad/ymgynghoriad a than ddiwedd y cyfarfod/digwyddiad.

## Adolygiadau ac ymchwiliadau, gan gynnwys adolygiadau lladdiad

Er mwyn ymchwilio i laddiad neu farwolaeth yn y carchar, a chynnal ymchwiliadau arbennig, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- cofnodion yr heddlu
- euogfarnau
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

### Adolygiadau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys adolygiadau lladdiad, adolygiadau llywodraethu ac adolygiadau o sefydliadau ar y cyd

Er mwyn cynnal adolygiad lleol, cenedlaethol, llywodraethu neu sefydliadau ar y cyd, efallai y byddwn yn casglu'r data personol isod (fodd bynnag, rydym yn cymryd gofal i sicrhau nad yw ein hadroddiadau adolygu a chyhoeddiadau eraill yn nodi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal):

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- rhif adnabod y claf
- comisiynydd y GIG ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir
- enwau staff
- rolau staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnodion goruchwylio staff
- gwiriadau o'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- ffotograffau staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff, geirdaon
- cymwysterau staff a'u cofrestriad gyda chorff proffesiynol a hanes cyflogaeth

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a/neu glinigol eraill, cynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, gwybodaeth am risgiau, math o

driniaeth a meddyginiaeth, a hefyd unrhyw gwynion a gofnodwyd mewn perthynas â gofal a thriniaeth
- atgyfeiriadau diogelu
- gwybodaeth glinigol neu am ddigwyddiad difrifol, a all gynnwys cleifion neu staff, ac a all gynnwys honiadau o gam-drin
- manylion cadw (os yn berthnasol)
- ethnigrwydd cleifion, gan gynnwys dewisiadau neu anghenion crefyddol/diwylliannol

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth cleifion er mwyn:

- olrhain effeithiolrwydd y gofal y mae claf wedi'i gael dros gyfnod o amser
- gwirio bod darparwyr gofal iechyd yn cydymffurfio â rheoliadau, sy'n cynnwys cadw cofnodion priodol, cynllunio triniaeth a gofal, cydsyniad a rheoli meddyginiaethau
- deall profiadau pobl o gyrchu a derbyn gofal iechyd
- cyfeirio at unrhyw faterion gofal aneffeithiol neu anniogel wrth roi adborth i ddarparwyr gofal iechyd

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth staff er mwyn:

- sicrhau bod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi'u cynnal
- gwerthuso p'un a yw staff wedi derbyn hyfforddiant a/neu ddatblygiad perthnasol
- cyfeirio at staff, os oes angen, wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd
- deall profiadau staff o ddarparu gofal iechyd, a gofal i gleifion, o fewn y gwasanaethau lle maent yn gweithio

Mae ein pwerau arolygu yn ein galluogi i gyfweld unrhyw un sy'n gweithio i wasanaeth gofal iechyd. Rydym yn cymryd nodiadau o'r cyfweliadau hyn ac yn defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwn i lywio ein hadolygiadau ac i lunio ein barn.

Gall pobl sy'n gweithio i ddarparwyr gofal iechyd hefyd gysylltu â ni i rannu pryderon am wasanaethau neu wybodaeth arall a allai ein cynorthwyo yn ein gwaith.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data personol a gawn yn ystod ein hadolygiadau â sefydliadau/awdurdodau eraill neu gyrff rheoleiddio, os teimlwn ei fod yn briodol wrth gyflawni ein rôl, neu i gynorthwyo'r cyrff hynny yn eu rolau nhw. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a chyrff proffesiynol eraill, pan fo risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau cofrestredig yn barhaus

Er mwyn cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol ar gyfer y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol:

- enw

- dyddiad geni
- cyfeiriad cartref (rheolwr cofrestredig yn unig)
- cyfeiriad busnes
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- dewisiadau iaith a chyfathrebu
- gwybodaeth ariannol (manylion cyfrif banc)
- geirdaon personol/proffesiynol

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- hanes meddygol (geirda meddygol)
- euogfarnau

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am saith mlynedd ar ôl dadgofrestru.

## Ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau cyffredinol

Er mwyn ymateb i ohebiaeth ac ymholiadau cyffredinol, rydym yn cofnodi'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn
- crynodeb o'r ohebiaeth
- dewisiadau iaith

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth a byddwn yn ei chadw am 12 mis at ddibenion archwilio.

## Gwasanaeth adolygu ar gyfer iechyd meddwl

Rydym yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn diogelu buddiannau'r bobl y mae eu hawliau wedi'u cyfyngu o dan y Ddeddf honno. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- cyfeiriad cartref y claf
- cyfeiriad y lleoliad cadw
- dewisiadau iaith a chyfathrebu'r claf
- enw cyswllt y clinigydd

- manylion cyswllt y clinigydd, gan gynnwys rhif ffôn a dewisiadau iaith a chyfathrebu
- yr awdurdod cadw

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- cofnodion meddygol, diagnosis, cynlluniau gofal a thriniaeth (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol, e.e. cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)
- ethnigrwydd

Dim ond gyda'r tîm clinigol sy'n gofalu am y claf ac sydd eisoes â mynediad cyfreithiol i'r wybodaeth hon y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 25 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig

Rydym yn gweinyddu'r Gwasanaeth Meddyg Ail Farn Penodedig, sy'n diogelu hawliau cleifion a gedwir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'n ofynnol i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw'r claf
- dyddiad geni'r claf
- rhywedd y claf
- cyfeiriad cartref y claf
- cyfeiriad y lleoliad cadw
- dewisiadau iaith a chyfathrebu cleifion
- enw cyswllt y clinigydd
- manylion cyswllt y clinigydd, gan gynnwys rhif ffôn a dewisiadau iaith a chyfathrebu'r awdurdod cadw

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- cofnodion meddygol, diagnosis, cynlluniau gofal a thriniaeth (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol, e.e. cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)
- ethnigrwydd

Dim ond gyda'r tîm clinigol sy'n gofalu am y claf ac sydd eisoes â mynediad cyfreithiol i'r wybodaeth hon y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am wyth mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen neu ymweliad olaf.

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae gwybodaeth am ein platfformau cyfryngau cymdeithasol a sut rydym yn defnyddio eich data ar gael yma: https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd.

## Hysbysiadau statudol o farwolaeth, absenoldeb anawdurdodedig, anafiadau difrifol, achosion o glefydau heintus, honiadau o gamymddwyn ac amddifadu o ryddid

Er mwyn ymchwilio i hysbysiadau statudol, efallai y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- enwau staff
- rolau staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnodion goruchwylio staff
- gwiriadau o'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- ffotograffau staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff
- geirdaon
- cymwysterau / cofrestriad gyda chorff proffesiynol a hanes cyflogaeth

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- cofnodion yr heddlu
- euogfarnau
- hanes meddygol (geirda meddygol), cofnodion meddygol, a chynlluniau gofal a thriniaeth
- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, risg, math fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau amddiffyn a cham-drin
- datganiadau dioddefwyr

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Hysbysiad statudol am ddigwyddiadau yn ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Rydym yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn pan fyddant yn cael triniaeth sy'n gofyn am amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio. Byddwn yn adolygu digwyddiadau a hysbyswyd i ni sy'n ymwneud â chleifion a allai fod wedi dod i gysylltiad â mwy o ymbelydredd ïoneiddio nag y dylent fod wedi'i gael.

Er mwyn ymchwilio i hysbysiadau statudol, efallai y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost
- enwau staff
- rolau staff
- cofnodion arfarnu staff
- cofnod goruchwylio staff
- gwiriadau o'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- ffotograffau staff
- gwiriadau recriwtio / cyn cyflogi staff
- geirdaon
- cymwysterau / cofrestriad gyda chorff proffesiynol a hanes cyflogaeth

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- hanes meddygol (geirda meddygol)
- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth
- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth, gan gynnwys diagnosis, risg, math fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau amddiffyn a cham-drin
- datganiadau dioddefwyr

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fydd risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Cymryd camau gorfodi

Yn y broses o gymryd unrhyw gamau gorfodi lle bo hynny'n berthnasol / sy'n ofynnol, gallwn gasglu'r data personol canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- nodiadau a recordiadau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- datganiadau dioddefwyr
- tystiolaeth a gafwyd yn gudd

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth pan fo risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff gyda chyrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

## Â PHWY Y BYDDWN YN RHANNU EICH GWYBODAETH

Mae gan AGIC nifer o gytundebau rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill rydym yn gweithio'n agos gyda nhw. Mae'r cytundebau hyn yn nodi'r sail resymegol ar gyfer rhannu gwybodaeth, i gynorthwyo'r sefydliadau i gyflawni eu hamcanion statudol cyffredin a chanolbwyntio ar eu priod weithgareddau. Maent yn cefnogi creu rhaglenni gwaith sy'n ategu ei gilydd, gan sicrhau bod prosesau clir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth, risgiau a phryderon. Lle mae risgiau posibl i ddiogelwch y cyhoedd, cleifion neu staff, bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau/sefydliadau perthnasol, megis yr heddlu a byrddau diogelu awdurdodau lleol. Bydd AGIC yn rhannu eich data personol dim ond fel y nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Gallwch gael mynediad i'r cytundebau rhannu gwybodaeth trwy ddewis y ddolen uchod neu gyrchu'r dogfennau ar ein gwefan:

https://www.agic.org.uk/ein-memoranda-o-gyd-ddealltwriaeth-gyda-sefydliadau-eraill

## EICH HAWLIAU DAN REOLIAD CYFFREDINOL Y DU AR DDIOGELU DATA (GDPR)

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- Cael mynediad at y data personol y mae AGIC yn ei brosesu amdanoch
- Gofyn i AGIC gywiro gwallau yn y data hwnnw
- Gwrthwynebu prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- Dileu eich gwybodaeth
- Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

## CYSYLLTIADAU

I gael rhagor o wybodaeth am y data y mae AGIC yn ei gadw a sut y caiff ei ddefnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Perchennog Asedau Gwybodaeth
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

I gael cyngor annibynnol ar GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
WILMSLOW
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk